

## **Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW)**

### **Llais y Goedwig 2019 - 2022**

#### **Ynglŷn â Llais y Goedwig**

Sefydliad rhwydwaith yw Llais y Goedwig, a sefydlwyd yn 2008 i gefnogi ymarferwyr a grwpiau coetiroedd cymunedol ledled Cymru. Mae'r sefydliad nawr yn cynnig cymorth i dros 90 o grwpiau, yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid gwahanol i wella mynediad i goetiroedd, ac â 700 o gefnogwyr ar draws Cymru.

Mae Llais y Goedwig yn gwneud hyn drwy roi cyngor, hyfforddiant a gwybodaeth i grwpiau coetiroedd cymunedol a thrwy ddatblygu cysylltiadau â sefydliadau rhanddeiliaid allweddol (Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngorau Sir a Chymunedol, Coed Cadw a thirfeddianwyr preifat) i wella cyfleoedd cymunedau i gael mynediad at goetiroedd lleol.

Mae'r tirlun gwleidyddol a chymunedol wedi newid yn sylweddol ers creu Llais y Goedwig; mae llai o arian cyhoeddus yn y sector amgylchedd, ond mwy o awydd i harneisio manteision coetiroedd mewn cymunedau lleol - ar gyfer iechyd a lles, ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth a'r amgylchedd ac ar gyfer potensial economaidd.

#### **Ynglŷn â Phrosiect ENRaW 2019 - 2022**

Bydd Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) Llywodraeth Cymru yn helpu Llais y Goedwig i ddatblygu ac ehangu cymorth i goetiroedd cymunedol Cymru hyd at 2022.


Bydd yr arian yn helpu Llais y Goedwig i barhau'r gwaith pwysig mewn cymunedau ledled Cymru, gan gynnig cefnogaeth ymroddedig i grwpiau coetiroedd yn ogystal â chefnogaeth draws bartner. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau cryfach â Chyrff Cyhoeddus sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol a lleol, ac yn sicrhau bod rheoli coetiroedd yn gymunedol yn opsiwn realistig i bartneriaid Cyrff Cyhoeddus. Drwy gynnig eiriolaeth ar lefel bolisi, a chymorth wedi ei gyd-gynllunio ar lefel leol a rhanbarthol, bydd 'Llais y Goedwig' yn gwella hyder o fewn Cyrff Cyhoeddus - yn galluogi mwy o gymunedau i reoli eu coetir lleol.

#### **Ymunwch â'r tîm**

Mae Llais y Goedwig yn sefydliad cyfeillgar sydd â thîm darparu medrus a brwdfrydig a Bwrdd gwirfoddolwyr ymroddedig a phrofiadol. Er mwyn cyflawni amcanion prosiect 'Llais y Goedwig', rydym yn recriwtio aelodau ychwanegol ar gyfer y tîm - Swyddogion Datblygu yng ngogledd ddwyrain a de ddwyrain Cymru a Swyddog Datblygu ar gyfer Polisi. Bydd y rolau datblygu hyn yn ymdrin ag ardaloedd penodol yng Nghymru er mwyn ategu'r ardaloedd lle mae staff wedi eu lleoli'n barod, ac i sicrhau cymorth cynhwysol ar draws Cymru gyfan. Bydd dwy rôl hefyd wedi eu lleoli yn swyddfa Llais y Goedwig ym Machynlleth; sef Hwylusydd Rhwydwaith a Gweinyddwr.

Bydd rheolwr prosiect yn goruchwylio prosiect ENRaW ac yn adrodd yn ôl i Fwrdd LlyG a Grŵp Ymgynghorol newydd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector.

## Y Manylion:



### Beth fyddwn yn ei wneud:

Bydd y tîm yn parhau i weithio â phartneriaid presennol o fewn Cyrff Cyhoeddus, y Trydydd Sector a'r Sector Coedwigaeth er mwyn hybu cydweithio. Byddant hefyd yn datblygu cyfleoedd partneriaeth newydd ac yn gweithio â Chyrff Cyhoeddus i'w helpu i gyflawni amcanion sydd ganddynt o dan Ddeddf Lles Cenhedloedd y Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

Mae'r cynllun darparu dros y tair blynedd yn cynnwys:

- Adnabod a mapio ardaloedd o goetiroedd y gall cymunedau weithio arnynt
- Trefnu trosglwyddiadau asedau neu drefniadau rheolaeth gymunedol a chefnogi'r gwaith o gytuno arnynt
- Ymgysylltu â 'chefnogwyr' lleol am goed a choetiroedd
- Bod y pwynt cyswllt cyntaf rhwng Cyrff Cyhoeddus a chymunedau mewn perthynas â choetiroedd.
- Gweithio â sefydliadau Trydydd Sector, sector Coedwigaeth a sectorau perthnasol eraill er mwyn sicrhau cyfatebolrwydd rhwng eu gwaith ac i gynyddu'r canlyniadau ar draws yr holl brosiect.
- Gweithio gyda sefydliadau coedwigaeth fel yr ICF, RFS a Confor, i sicrhau bod coetiroedd cymunedol yn cael eu hadnabod fel rhan annatod o'r sector coedwigaeth ac i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer Grwpiau Coetiroedd Cymunedol yn parhau i fod yn rhan o Bolisi Goedwigaeth.
- Datblygu hybiau rhanbarthol a rhwydwaith o gymorth a dargedir ar lefel ranbarthol
- Datblygu ffynonellau ar-lein a chyd-gynllunio digwyddiadau partneriaid